Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Henblas

Llangristiolus
Bodorgan
Ynys Môn
LL62 5DR

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Henblas

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Henblas |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 90 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 67 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 12 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 9.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 10.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 68.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2025 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 15/05/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 15/06/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref o Ysgol Henblas sy’n cyfrannu’n effeithiol at feithrin amgylchedd cynnes a chefnogol. Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac effeithiol, ac mae staff yn cydweithio’n llwyddiannus i wireddu gweledigaeth yr ysgol.

Mae staff yn darparu cwricwlwm eang ac ysgogol sy’n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae profiadau sy’n seiliedig ar dreftadaeth, hanes a diwylliant lleol, ynghyd â chysylltiadau cryf â’r gymuned, yn cyfoethogi’r ddarpariaeth ac yn meithrin balchder disgyblion yn eu cynefin. Mae’r profiadau hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i lawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol ac o aelwydydd incwm isel, i ddatblygu eu medrau a chyfrannu’n weithredol at fywyd yr ysgol a’r gymuned ehangach. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a gânt i leisio eu barn a dylanwadu’n gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae athrawon yn cynllunio’n bwrpasol ar gyfer datblygu medrau disgyblion er mwyn cefnogi llawer i wneud cynnydd da dros amser. Mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd a digidol yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau, ac yn datblygu’n siaradwyr Cymraeg naturiol a hyderus. Er hyn, nid yw medrau darllen lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu’n ddigon cadarn yn y Gymraeg na’r Saesneg.

Lle mae’r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn defnyddio dulliau holi medrus ac yn darparu gweithgareddau diddorol sy’n cefnogi cynnydd disgyblion yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo cydweithio buddiol a chyfnodau myfyrio gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dysgu ymhellach. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy’n herio dysgu disgyblion yn ddigon pwrpasol bob tro, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mae arweinwyr yn cydweithio’n bwrpasol i werthuso effaith y ddarpariaeth ar ddatblygiad a chynnydd ym medrau disgyblion. Yn ogystal â chyfleoedd dysgu proffesiynol bwriadus i staff, maent yn elwa ar gydweithio ag ysgolion partner i rannu eu harbenigedd ac arferion effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu’n gadarnhaol at gryfhau ansawdd yr addysgu a’r dysgu.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Darparu gweithgareddau dysgu sy’n cefnogi a herio dysgu disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl

A2 Gwella medrau darllen disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar, gynhwysol a theuluol sy’n rhan greiddiol o’i chymuned leol. Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir a phwrpasol sy’n seiliedig ar weledigaeth gytûn, ‘Gwreiddiau i Dyfu ac Adenydd i Hedfan’, sy’n treiddio’n gadarn ym mywyd a gwaith yr ysgol. Caiff y weledigaeth hon ei chefnogi’n frwd gan staff ymroddgar sy’n cydweithio’n effeithiol i feithrin ymdeimlad cryf ymysg disgyblion o berthyn, parch a gofal sy’n nodwedd amlwg o’r ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn cymryd rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm cynhwysfawr ac ysgogol sy’n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn effeithiol. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfleu eu syniadau a’u diddordebau i’r ddarpariaeth fel rhan annatod o’r broses gynllunio. Maent yn darparu profiadau dysgu diddorol ac ysgogol sy’n datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau llawer o ddisgyblion yn llwyddiannus. Trwy themâu diddorol sy’n adlewyrchu treftadaeth, hanes a diwylliant yr ardal leol, mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o falchder yn eu cymuned.

### Ciplun: Cydweithio effeithiol â’r gymuned leol i gyfoethogi’r ddarpariaeth a datblygu gwerthfawrogiad disgyblion o’u bro

Mae gan yr ysgol gysylltiadau hynod gryf â’r gymuned leol ble mae aelodau o’r gymuned yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd i rannu eu harbenigeddau a’u profiadau gyda disgyblion. Enghraifft nodedig o hyn yw’r cydweithio rhwng yr ysgol a phentref Llangristiolus wrth gynllunio a threfnu ‘Gig Henblas’ yn flynyddol. Mae disgyblion yn cydweithio’n agos â busnesau a sefydliadau lleol i godi arian a threfnu digwyddiad cymunedol llwyddiannus ar dir yr ysgol.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau mentergarwch pwrpasol sy'n datblygu medrau arweinyddiaeth, llythrennedd, rhifedd a digidol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb mewn ystod eang o dasgau, gan gynnwys cyfathrebu â noddwyr, gwerthu tocynnau, trefnu adnoddau a rheoli cyllideb.

Mae'r profiadau hyn yn llwyddiannus wrth ddatblygu hyder, annibyniaeth a dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd cyfrannu'n weithredol at eu cymuned leol.

Mae athrawon yn cyflwyno'r medrau i ddisgyblion ar draws y meysydd dysgu yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol ac o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd da dros amser. Maent yn datblygu medrau mathemateg cadarn ac yn cymhwyso eu dealltwriaeth o rifedd yn briodol mewn cyd-destunau amrywiol. Mae cynllunio cynhwysfawr athrawon ar gyfer datblygu medrau digidol disgyblion yn eu galluogi i ddefnyddio ystod eang o feddalwedd yn hyderus i gyflwyno a rhannu eu dysgu mewn amrywiaeth o gyfryngau.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn hynod effeithiol. Mae'r holl staff yn fodelau iaith cadarn ac yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod eang o gyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at gefnogi llawer o ddisgyblion i ddatblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus a naturiol.

Yn yr arfer orau, mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddarllen ystod o destunau diddorol sy'n ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn ddigon cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn defnyddio ystod o dechnegau addysgu effeithiol sy'n cymell disgyblion i ddatblygu eu medrau'n llwyddiannus dros amser. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn fedrus ac yn defnyddio dulliau holi treiddgar i ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gydweithio mewn parau a grwpiau bach wrth ddatblygu eu medrau cyfathrebu a meddwl yn effeithiol. Mae staff yn darparu gweithgareddau dysgu yn briodol i fodloni anghenion disgyblion er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd yn eu medrau. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n cefnogi a herio dysgu disgyblion yn ddigon pwrpasol bob tro, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu mewn cyd-destunau amrywiol a diddorol. Er hyn, mae lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig y disgyblion hŷn, yn parhau i wneud yr un gwallau yn eu gwaith wrth ysgrifennu'n estynedig. Mae athrawon yn darparu adborth llafar defnyddiol sy'n galluogi disgyblion i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda a sut i wella eu gwaith. Maent yn darparu cyfleoedd

gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar eu cynnydd a gwerthuso eu gwaith yn erbyn nodau'r gweithgareddau.

Mae ethos gofalgar yr ysgol yn hyrwyddo lles, parch a chwrteisi ymysg disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn hyrwyddo hunanddisgyblaeth ac ymddygiad cadarn ymhlith disgyblion, sy'n eu cymell i ddangos parch tuag at ei gilydd ac oedolion. Mewn sesiynau addoli ar y cyd a phrofiadau dysgu cyfoethog, mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ystyried gwerthoedd moesol ac ysbrydol pwysig. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o werthoedd cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol yn llwyddiannus.

Mae grwpiau llais y disgybl wedi'u sefydlu'n gadarn ac yn cyfrannu'n ystyrlon at fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'r pwyllgor eco yn datblygu eu medrau arwain yn effeithiol wrth sefydlu a datblygu'r ardd lysiau ac yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion eraill eu defnyddio'n rheolaidd fel rhan annatod o'u dysgu.

Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau'n ddiwyd ac yn cefnogi ac yn herio'r ysgol yn briodol. Ynghyd ag arweinwyr yr ysgol, maent yn defnyddio ystod briodol o weithdrefnau hunanwerthuso i fesur effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion. Trwy gynnwys staff mewn sesiynau arsylwi yr addysgu a'r dysgu, craffu ar waith disgyblion a thrafodaethau proffesiynol, mae pob partner yn datblygu dealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi'u cysylltu'n fwriadus â blaenoriaethau gwella'r ysgol a datblygiad unigol staff. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu ac yn dyfnhau dealltwriaeth staff o ddulliau addysgu effeithiol. Yn ogystal, mae cydweithio buddiol ymysg staff mewn ysgolion cyfagos yn eu galluogi i rannu eu harbenigedd ac arferion effeithiol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/08/2026